



- Darparu arweiniad effeithiol er mwyn sicrhau fod Ysgolion Cynradd Cenarth a Llechryd yn darparu lle cyffrous i ddysgu sy'n cwrdd â'u nodau gosodedig a gofynnol a lle bydd y dysgwyr yn mwynhau llwyddiant ac yn cyrraedd eu llawn potensial.
- Datblygu prosesau a gweithdrefnau addas ar gyfer asesu a chofnodi cynnydd y dysgwyr, gan gynnwys gosod targedau ar gyfer unigolion, yn unol â'r gofynion statudol.
- Sicrhau fod Ysgolion Cynradd Cenarth a Llechryd yn cynnig amgylchfyd a chymuned diogel, ofalgar, gynhwysol a chefnogol i'r holl dysgwyr ac oedolion sy'n dysgu ac yn gweithio yno.
- Sicrhau safonau cynnydd a chyflawniad uchel drwy addysgu a dysgu o safon uchel.

4. Disgyblaeth Dysgwyr

- Cynnal trefn a disgyblaeth dda, ynghyd â chod ymddygiad derbyniol ymhlith y dysgwyr, yn unol â'r Polisi Ymddygiad a Disgyblaeth a gymeradwywyd gan Lywodraethwyr y ddwy ysgol a sicrhau bod y cod yn cael ei ddilyn bob amser.

5. Perthynas

- Datblygu cysylltiadau gweithio agos gyda'r rhieni a chymunedau lleol, ysgolion cyfagos, gan gynnwys sefydliadau uwchradd, y cyrff llywodraethol, yr Awdurdod Lleol, a'r holl asiantaethau swyddogol a gwirfoddol sydd â'u gwaith yn cyd-daro â gweithgareddau'r ddwy ysgol.

6. Adnoddau

- Sicrhau fod cyllidebau Ysgolion Cynradd Cenarth a Llechryd a'r holl adnoddau'n cael eu rheoli'n effeithlon ac yn effeithiol.

7. Adeilad a Thir y ddwy ysgol

- Gwneud trefniadau gyda Chorff Llywodraethol Ysgolion Cynradd Cenarth a Llechryd ar gyfer sicrhau bod adeilad, cynnwys a thir y ddwy ysgol yn cael eu cynnal a'u cadw'n effeithiol, a chymryd camau angenrheidiol lle bod angen.
- Sicrhau iechyd a diogelwch staff, dysgwyr ac ymwelwyr i'r ddwy ysgol yn unol â rheoliadau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a gofynion yr ALL, a chymryd y camau angenrheidiol lle bo angen.

8. Addysgu

- Ar hyn o bryd, nid oes gan y Pennaeth gyfrifoldeb addysgu. Fodd bynnag, adolygir y sefyllfa hon yn gyson yn unol â chyllidebau Ysgolion Cynradd Cenarth a Llechryd.